PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD IAU, 20 MEDI 2018

Yn bresennol: Cynghorydd Weaver (Cadeirydd), Cynghorwyr Dilwar Ali a/ac Howells

## 1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Graham Thomas. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor nad oedd y Cynghorydd Sattar yn aelod o'r Pwyllgor bellach, felly byddai angen llenwi'r swydd wag.

## 2 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Nigel Howells. Datganodd y Cynghorydd Howells fuddiant personol fel aelod o Gynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro.

## 3 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2018 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 4 : DATGANIAD CYFRIFON AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017-18

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau yn nodi cyfrifoldeb y Pwyllgor i lywodraethu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn strategol.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys ystyried datganiadau ariannol y gronfa a chytuno ar yr adroddiad blynyddol.

O ran y Datganiad Ariannol, dywedodd swyddogion nad oedd unrhyw sylwadau i'w hadrodd, roeddent yn set dda o gyfrifon ac roedd yr Archwilwyr wedi cytuno nad oes unrhyw gamddatganiadau nad ydynt wedi'u cywiro. Bydd y Cyfrifon yn mynd i'r Cyngor yr wythnos nesaf i gael eu cymeradwyo.

O ran yr Adroddiad Blynyddol, dywedodd swyddogion fod y rhain yn dilyn ymlaen o'r datganiad cyfrifon sy'n ffurfio craidd yr adroddiad. Mae'r Cyngor yn adrodd ar fuddsoddiad y gronfa, ac mae'r adroddiad yn cynnwys geirfa a chysylltiadau. Mae'r adroddiad ar gael i holl randdeiliaid y Gronfa, y cyhoedd yn gyffredinol a'r cyrff cofrestredig amrywiol. Roedd rhwymedigaeth i gyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol erbyn 1 Rhagfyr 2018; byddai ychydig o rannau i'w cwblhau ar ôl iddo fod i'r Cyngor ond roedd yn agos at y fersiwn terfynol. Ar ôl ei gymeradwyo byddai'r adroddiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg a'i gyhoeddi ar dudalennau gwe'r Cyngor.

Dywedodd swyddogion fod y gronfa wedi gweld twf cyson, yn yr hirdymor mae'n parhau â'i chyfoedion, yn cadw’n diddyled a'r nod yw cael cyllid llawn yn yr hirdymor.

Nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor Archwilio wedi gweld yr adroddiad ac na chodwyd unrhyw faterion.

PENDERFYNWYD:

i. Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad yr Archwilydd.

ii. Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Cronfa 2017-18.

5 : PRISIAD ACTIWARAIDD TEIRBLYNYDDOL 2019

Hysbyswyd yr Aelodau y bydd y Prisiad Actiwaraidd Tair Blynedd nesaf o Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro ar 31 Mawrth 2019. Rhoddwyd trosolwg i'r aelodau o'r broses brisio a'r amserlen.

Nodwyd mai hwn oedd y tro cyntaf i'r Pwyllgor gymryd rhan yn y broses. Mae gofyniad bob tair blynedd i ymgysylltu â'r Actiwarïaid a gwneud prisiad tair blynedd. Mae'r prisiad yn edrych yn ôl ac ymlaen, i asesu'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei roi ar waith i baratoi i dalu ei bensiynwyr yn y dyfodol. Bydd yn ymarfer technegol iawn ac mae ymgysylltu'n digwydd rhwng Caerdydd, Bro Morgannwg a chyrff rhestredig a dderbynnir, a phenderfynir ar gyfraddau cyfraniadau unigolion a grwpiau.

Nododd yr Aelodau ei fod yn broses hir ac na fyddai'n cael ei chymeradwyo tan 2020.

Dywedodd swyddogion eu bod ar hyn o bryd mewn proses gaffael gan eu bod am brofi'r farchnad ar gyfer swydd yr actwari gan fod y Cyngor wedi gweithio gyda'r Actiwarïaid presennol ers amser.

Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a rhoi sylwadau.

Gofynnodd yr Aelodau am ba hyd y byddai penodiad yr Actwari a chawsant eu cynghori mai am 5 mlynedd oedd gydag estyniad posibl. Roedd hyn yn caniatáu ar gyfer 2 gylch prisio ac amser i baratoi am y trydydd.

Gofynnodd yr Aelodau pa ganran a ariannwyd gan y gronfa adeg y prisiad diwethaf ac fe'u hysbyswyd ei bod yn 85% ac bod hyn wedi cynyddu ers hynny.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd swyddogion yn ymwybodol o unrhyw beth a oedd wedi newid ers y prisiad diwethaf. Eglurodd swyddogion y cynnydd mewn hirhoedledd a'i uchafbwynt yn 2016 a dadansoddiad yn ôl Cod Post a gwahaniaethau demograffig sy'n llywio atebolrwydd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd edrych ar ddadansoddiad cod post yn rhywbeth y byddai disgwyl i'r actiwarïaid newydd ei wneud ac fe'u cynghorwyd y byddai, mae'n gost ychwanegol ond mae'n wybodaeth werthfawr i lywio cyfrifiadau atebolrwydd. Ychwanegodd swyddogion fod yn rhaid i'r Cyngor ystyried demograffeg ei weithwyr hefyd.

Nododd yr Aelodau fod cyfraddau llog a chwyddiant yn dechrau cynyddu ar ôl cyfnod o fod yn isel.

PENDERFYNWYD: nodi'r adroddiad.

6 : DYRANIAD ASEDAU STRATEGOL

PENDERFYNWYD: nodi cyngor y Panel Cynghori ar Fuddsoddi i beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r Dyraniad Asedau Strategol ar hyn o bryd ond i ystyried adolygiad pellach ym mis Mawrth 2019.

7 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad cynnydd ar ddatblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod cyflwyniad ffurfiol y Gronfa i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol wedi'i gymeradwyo, ac felly bod cerbyd carfan wedi'i awdurdodi ar gyfer y Gronfa bellach.

PENDERFYNWYD: I nodi'r datblygiadau diweddar o ran sefydlu Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Pensiynau Cymru.

8 : GWAHARDD Y CYHOEDD

**Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y gwaith o ystyried eitemau 9 a 10 gan y byddai ystyried yr eitemau hyn yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth sy'n dod o dan baragraffau 14 a 21 Rhannau 4 a 5, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

9 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU – IS-GRONFEYDD ARFAETHEDIG

**Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y gwaith o ystyried eitemau 9 a 10 gan y byddai ystyried yr eitemau hyn yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth sy'n dod o dan baragraffau 14 a 21 Rhannau 4 a 5, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.**

PENDERFYNWYD: i nodi'r argymhellion o fewn yr adroddiad.

10 : COFNODION Y PANEL YMGYNGHORI AR FUDDSODDI

Nodwyd cofnodion cyfarfodydd y Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi o'r 6ed Mawrth a'r 12fed Mehefin 2018.

11 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

## 12 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

26 Tachwedd 2018 am 5.00pm yn Ystafell Bwyllgor 2, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Y cyfarfod i ben ar 6.10 pm